

Gyferbyn: The Apprentice

Pwyso a mesur y gynulleidfa

David Bunker sy'n ystyried pam bod gwledydd a rhanbarthau amrywiol y DU yn ymateb yn wahanol i raglenni'r BBC. Er na ddylid cymryd mai'r cynnwys sy'n llwyr gyfrifol am eu safbwyntiau (mae materion technegol, demograffeg gymdeithasol, ethnigrwydd ac oedran yn ffactorau hefyd), yn y bôn, rhaid meddwl yn nhermau'r rhaglenni eu hunain i ddeall pam nad yw'r BBC yn cyflawni cystal mewn ambell wlad neu ranbarth. Er hynny, mae'n rhaid i'r BBC barhau i ganolbwyntio ar gynhyrchu rhaglenni teledu atyniadol o'r radd flaenaf sy'n croesi ffiniau cenedlaethol a rhanbarthol.

David Bunker
Pennaeth Ymchwil,
BBC Vision

Yn draddodiadol, ystyrir bod y BBC yn perfformio'n well yn ne Lloegr nag yng ngogledd Lloegr, Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Un o'r heriau i ymchwilwyr cynulleidfaoedd y BBC yw canfod a yw'r syniad hwn o dangyflawni yn wir ai peidio, ac os felly, beth sy'n gyfrifol am y methiannau hyn, a sut gellir gwella pethau yn y dyfodol.

O safbwynt teledu yn benodol, mae ffigurau gwylio BARB (dull safonol y diwydiant teledu o fesur nifer y gwylwyr) am bob un o ardaloedd y DU yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer asesu perfformiad gwylwyr y BBC, hynny yw, a ydy pobl yn *gwylio'r* rhaglenni teledu sy'n cael eu cynhyrchu a'u darlledu gennym. Dim ond hanner y stori yw hyn – mae'n hollbwysig ymchwilio ymhellach i weld beth yw profiad penodol pobl o

‘Mae angen inni ystyried “cyfran” gwylio’r BBC ledled y DU, a dyma lle gwelwn y gwahaniaethau mwyaf rhwng y gwledydd a’r rhanbarthau unigol.’

wylio’r BBC mewn gwahanol rannau o’r DU – a ydynt yn gwerthfawrogi’r hyn sydd ar y sgrin, a sut mae’n amrywio o wlad i wlad, ac o ranbarth i ranbarth?

Trown at y ffigurau gwylio yn gyntaf. Ffordd sylfaenol o fesur perfformiad y BBC yw faint o bobl y mae’n llwyddo i’w cyrraedd – hynny yw, pa ganran o’r boblogaeth sy’n gwylio o leiaf rai o chwe sianel y BBC bob wythnos (ein safon ofynnol yw bod pobl wedi gwylio o leiaf 15 munud dros gyfnod o wythnos, sy’n uwch na rhai sianeli eraill yn y diwydiant). Yn ôl ein gwaith ymchwil, mae rhaglenni teledu’r BBC yn cyrraedd 85% o boblogaeth y DU ar gyfartaledd bob wythnos.

Nid yw’r amrywiaeth daearyddol mor fawr â hynny. Mewn gwirionedd, dim ond Gogledd Iwerddon a Llundain sy’n is na chyfartaledd y DU (gyda’r olaf yn gwrthbrofi’r rhagdybiaeth i ryw raddau bod teledu’r BBC yn perfformio’n well yn ne Lloegr).

Er hynny, dim ond un llinyn mesur yw faint o bobl sy’n gwylio ein rhaglenni. Mae angen inni ystyried ‘cyfran’ gwylio’r BBC ledled y DU (faint o gyfanswm oriau gwylio’r gynulleidfa sy’n cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni teledu’r BBC yn benodol), a dyma lle gwelwn y gwahaniaethau mwyaf rhwng y gwledydd a’r rhanbarthau unigol. Ar gyfartaledd, tua 33% yw cyfran y BBC o’r holl oriau a gaiff eu gwylio ar y teledu ledled y DU. Mae’r gyfran ychydig yn uwch yn ne-orllewin Lloegr (tua 40%) ac yn eithaf iach yn ne a chanolbarth Lloegr. Er hynny, mae’r gyfran yn is na’r cyfartaledd yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a gogledd Lloegr – hynny yw, er bod y cynulleidfaoedd hyn yn gwylio rhywfaint o raglenni’r BBC bob wythnos, maen nhw’n neilltuo cyfran is o’u hamser gwylio i’r BBC nag yn unrhyw le arall yn y DU.

Nid faint sy’n gwylio yw’r unig ffactor chwaith – mae’n ddefnyddiol gwybod beth yw *canfyddiadau* pobl o deledu’r BBC ledled y DU hefyd. Wrth gadw llygad rheolaidd ar y gwylwyr, rydym yn gofyn iddynt roi marciau allan o 10 i raglenni teledu’r BBC. Tua 6.3 yw’r ffigur cyfartalog ar gyfer y DU. Mae’r ffigur yng ngogledd Lloegr a’r Alban yn llai na’r cyfartaledd, ond mae’r ffigur yng Nghymru yn *uwch* na’r cyfartaledd.

Nid yw’n hawdd esbonio’r gwahaniaethau hyn o safbwynt nifer y gwylwyr a’u canfyddiadau, gan y gallai pob math o resymau fod yn gyfrifol amdanynt. Er enghraifft, roedd brodorion Swydd Gaerhirfryn, Swydd Efrog neu ogledd-ddwyrain Lloegr yn hen gyfarwydd â’u cwmnïau teledu lleol, annibynnol, cadarn iawn – Granada, Yorkshire Television, Tyne Tees – a oedd wedi’u lleoli yn eu milltir sgwâr ac yn cyflenwi rhaglenni cofiadwy ar gyfer eu hardaloedd nhw’n benodol. Mae’n bosibl bod y BBC, ar y llaw arall, yn ymddangos yn bell, bell i ffwrdd, ac yn dueddol o ffafrio Llundain a de Lloegr. Mae’n anodd newid meddylfryd pobl wedyn. Yn wir, nid yw lefelau cymeradwyaeth gogledd Lloegr a’r Alban i’w gweld yn gwaethygu dros amser – mae’n debyg nad oes byd o wahaniaeth rhwng lefelau cymeradwyaeth y BBC heddiw â rhai 30 mlynedd yn ôl.

Er hynny, mae’n anghywir tybio mai’r math o raglenni sy’n bennaf gyfrifol am y canfyddiadau a pherfformiadau gwahanol o ranbarth i ranbarth. Efallai bod materion technegol, fel signal gwael mewn rhai rhannau o’r wlad, neu’r ddemograffeg gymdeithasol wahanol mewn gwahanol rannau o’r DU, yn effeithio ar chwaeth gwylwyr.

‘Mae’n hollbwysig ymchwilio ymhellach i weld beth yw profiad penodol pobl o wylio’r BBC mewn gwahanol rannau o’r DU.’

Ar wahân i'r elfen ddaearyddol, dylid cofio nad yw'r BBC mor boblogaidd ymhlith lleiafrifoedd ethnig o gymharu â'r boblogaeth groenwyn. Efallai mai hyn sy'n rhannol gyfrifol am dangyflawni yn Llundain, lle mae cyfran eithaf uchel o bobl o leiafrifoedd ethnig. Efallai bod y sefyllfa'n fwy cymhleth na dweud y dylai'r BBC wneud mwy i adlewyrchu a chynrychioli grwpiau ethnig yn ei rhaglenni (er bod hwn yn nod dymunol). Mae poblogaeth ethnig y DU dipyn yn iau na'r boblogaeth groenwyn ar y cyfan, a gwyddom fod y BBC yn dueddol o berfformio'n salach ymhlith pobl ifanc yn gyffredinol. Yn ôl ein gwaith ymchwil, does dim cymaint o wahaniaeth o safbwynt canfyddiad a mwynhad cynulleidfaoedd hŷn ethnig a gwyn – sy'n golygu bod oedran cyn bwysiced ag ethnigrwydd o bosibl wrth ystyried pam y mae'r BBC yn tangyflawni ymhlith y gynulleidfa ethnig.

Yn y pen draw, mae'n rhaid i chi ostwng i lefel y rhaglenni eu hunain er mwyn ceisio deall pam y mae'r BBC yn tangyflawni mewn gwledydd neu ranbarthau penodol, neu ymhlith grwpiau penodol o bobl. Mae'r canlyniadau'n ddiddorol dros ben.

Mae sioeau realaeth cystadleuol, fel *The X-Factor* a *Dancing on Ice* ar ITV1 ac *Any Dream Will Do* a *Strictly Come Dancing* ar BBC One, wedi denu ffigurau gwylio anferthol i'r ddwy sianel, ac maen nhw'n boblogaidd ar draws demograffeg gymdeithasol a lleoliadau daearyddol. Ond yn 2007, llwyddodd *The X-Factor* ac *Any Dream Will Do* i ddenu cyfartaledd uwch o wylwyr o'r Alban. Gyda chanwr o'r Alban, Leon Jackson, yn ennill *The X-Factor*, a'i gydwladwr Keith Jack yn ail agos yn *Any Dream Will Do*, mae'n deg tybio bod y diddordeb yn y cystadleuwyr Albanaidd yn elfen allweddol wrth gynyddu cyfran gwylwyr yr Alban.

Hefyd, trodd cyfran uchel o wylwyr Albanaidd i wylio Pencampwriaeth Tennis Wimbledon 2008 – digwyddiad y gellid bod wedi'i ystyried yn nodweddiadol Seisnig cyn hynny – o bosibl oherwydd mai Andy Murray yw un o chwaraewyr



Gyferbyn: Any Dream Will Do

9
10
10
10

‘Heb os nac oni bai, mae diddordeb lleol – boed yr holl gast, lleoliad, enw marquee neu gystadleuydd amatur sy’n breuddwydio am gyrraedd y brig – yn gallu denu cyfran uwch o wylwyr o’r wlad neu’r rhanbarth dan sylw.’

tennis gorau’r byd ar hyn o bryd. A chan nad oedd tîm pêl-droed Lloegr yn rhan o bencampwriaeth Ewro 2008, roedd cyfran uwch o Albanwyr yn gwylio’r gemau hyn, oherwydd bod modd mwynhau’r cyfan heb orfod dioddef clywed gormod am gyfleoedd Lloegr yn y gystadleuaeth, sef y canfyddiad arferol.

Ar y llaw arall, roedd rhaglenni fel *The Apprentice, Robin Hood* ac *Oliver Twist* yn llai poblogaidd yn yr Alban, o bosibl oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn gynyrchiadau Seisnig ar y naw, neu yn achos *The Apprentice*, yn rhy Lundeinig ei naws. Yn wir, gellir dweud bod gan gyfran o sioeau mwyaf poblogaidd y BBC nad ydynt mor boblogaidd yn yr Alban, gan gynnwys *Top Gear* ac *Ashes to Ashes*, acenion ac agweddau mwy Seisnig.

Mae’r cyfresi sebon poblogaidd sydd wedi’u gosod yng ngogledd Lloegr, *Coronation Street* ac *Emmerdale*, yn denu cyfran uwch o wylwyr yn y parthau hynny, yn ogystal â dramâu penodol eraill o ogledd Lloegr fel *Clocking Off, Fat Friends* ac *Auf Wiedersehen Pet*. Nid yw hyn yn berthnasol i ddramâu’n unig – mae *Ant and Dec’s Saturday Night Takeaway* a’r gyfres gomedi boblogaidd *Benidorm*, gyda chast a chymeriadau o ogledd Lloegr, yn perfformio’n well o lawer yng ngogledd Lloegr.

Enghraifft dda arall o apêl genedlaethol a rhanbarthol yw cyfres gomedi boblogaidd BBC Three, *Gavin and Stacey*. Llwyddodd y gyfres i berfformio’n well na’r cyfartaledd yng Nghymru ac Essex, diolch i gefndir daearyddol prif gymeriadau’r sioe mae’n debyg. Heb os nac oni bai, mae diddordeb lleol – boed yr holl gast, lleoliad, enw *marquee* neu gystadleuydd amatur sy’n breuddwydio am gyrraedd y brig – yn gallu denu cyfran uwch o wylwyr o’r wlad neu’r rhanbarth dan sylw.

Gyda mwy a mwy o raglenni’n cael eu cynhyrchu mewn mwy o ardaloedd gan amrywiaeth ehangach o bobl o gefndiroedd a lleoliadau gwahanol, byddai rhywun yn gobeithio bod dilysrwydd y dehongliad a welir ar y sgrin yn gwella’n naturiol, a bod cynhyrchwyr rhaglenni’n gwneud llai o gamgymeriadau wrth bortreadu poblogaethau lleol yn annheg yn eu tyb nhw. Er hynny, mae’n rhaid i’r BBC barhau i gyflenwi rhaglenni teledu sy’n croesi ffiniau rhanbarthol a chenedlaethol, o raglenni adloniant fel *Strictly Come Dancing*, i ddramâu cyfnod a chyfresi dogfen natur arloesol. Mae pawb yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rhaglenni o’r radd flaenaf, waeth ble maent yn byw – a dyma’r ateb gorau i unrhyw gyhuddiad o fod yn amherthnasol i gynulleidfaoedd ym mhob cwr o’r DU. ■

Ar hyn o bryd, mae David Bunker yn Bennaeth Ymchwil BBC Vision – lle mae’n arwain tîm o ymchwilwyr cynulleidfaoedd ar draws sianeli a mathau o raglenni. Mae ganddo 20 mlynedd o brofiad yn y maes, gyda’r BBC yn bennaf (radio, newyddion, ac yn fwy diweddar fel Rheolwr Ymchwil BBC One a BBC Two a chyfnod fel Uwch Ymgynghorydd Cynulleidfaoedd i Ymddiriedolaeth y BBC). Treuliodd gyfnodau’n gweithio gydag asiantaethau ymchwil y farchnad hefyd, gan gynnwys rheoli prosiectau ymchwil teledu rhyngwladol ledled Ewrop ac UDA. Cafodd ei fagu yn Preston, Swydd Gaerhirfryn, ac astudiodd ym Mhrifysgol Leeds. Mae’n byw yn Norfolk ar hyn o bryd.

Tudalennau 38-9:
Strictly Come Dancing